

Sut byddwn yn trin eich gwybodaeth?

Byddwn yn trin y wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni yn ddiogel a chyfrinachol. Bydd y sefydliadau rydym yn rhoi eich gwybodaeth iddynt yn ei ddefnyddio i ddiweddarar cofnodion; ac i ddod â gwasanaethau, budd-daliadau a chredydau i ben. Efallai byddant yn defnyddio'r gwybodaeth rydym yn ei rhoi iddynt mewn ffyrdd eraill, ond dim ond fel mae'r gyfraith yn caniatáu .

Gwybodaeth y byddwch ei angen i ddefnyddio'r gwasanaeth

I wneud yn siŵr fod y gwybodaeth cywir yn cael ei rhoi i unrhyw sefydliadau rydym yn cysylltu â hwy ar eich rhan - ac fel eich bod yn cael y gorau o'r gwasanaeth - byddai'n helpu pe baech yn dod â'r gwybodaeth canlynol ynglŷn â'r person sydd wedi marw gyda chi:

- Eu rhif Yswiriant Gwladol a dyddiad geni
- Manylion o unrhyw fudd-daliadau a gwasanaethau roeddent yn derbyn
- Eu tystysgrif marwolaeth os ydych yn defnyddio'r gwasanaeth ffôn
- Eu Trwydded Yrru neu rhif eu Trwydded Yrru
- Eu Pasbort neu rif Pasbort a threfgwlad eu genedigiaeth
- Enw'r Darparwr Tai Cymdeithasol (os yw'n berthnasol)
- Bathodyn Glas (os yw'n berthnasol)

Efallai y byddwn yn gofyn i chi hefyd am fanylion cyswllt:

- Eu teulu agosaf
- Unrhyw ŵr, gwraig neu bartner sifil sy'n goroesi
- Y person sy'n delio â'u hystâd

Mae'n rhaid i chi hefyd gael cytundeb y pobl a restrir uchod os rydych yn mynd i rhoi gwybodaeth i ni amdanynt.

Ceraint Agosaf

Os mai chi yw'r ceraint agosaf (perthynas agosaf drwy waed neu briodas i'r ymadawedig), efallai bydd eich hawliad i fudd-daliadau yn newid, felly dylech gael eich rhif Yswiriant Gwladol eich hun a/neu eich dyddiad geni wrth law pan fyddwch yn cysylltu â ni.

Os nad chi yw'r ceraint agosaf, neu'r person sy'n delio ag ystâd yr ymadawedig (y person sy'n didoli eu heiddo a'u harian gallwch chithau hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth hwn os oes gennych eu caniatâd i rhoi'r manylion ac i weithredu ar eu rhan.

Preifatrwydd

Mae'r gwasanaeth hwn yn ymrwymedig i sicrhau bod eich gwybodaeth wedi ei ddiogelu. Mae ein datganiad preifatrwydd yn dweud wrthyf sut byddwn yn defnyddio a diogelu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth. Gofynnwch i'r Ymgynghorwr os ydych yn dymuno gweld y datganiad preifatrwydd llawn.

Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl sefydliadau sy'n talu budd-dal / credyd neu'n rhoi gwasanaeth i chi, gyda'r gwybodaeth cywir a diweddar amdanoch chi.

Llywodraeth EM



Llywodraeth EM

Yn dilyn marwolaeth...

DYWEDWCH WRTHYM UNWAITH
...ac fe wnawn ni'r gweddill



www.newport.gov.uk
01633 414770

Y Swyddfa Gofrestru
Y Plasty, 4 Stow Park Circle
Casnewydd NP20 4HE

Mae'r daflen hon yn egluro sut y gallwn eich helpu i rhoi gwybod i'r adrannau cyngor a llywodraeth sydd angen cael gwybod am y farwolaeth

Gallwn eich helpu i ddweud wrth y bobl sydd angen gwybod...

Pan mae rhywun newydd farw, mae llawer o bethau sydd angen eu gwneud, ar adeg o bosibl lle rydych yn teimlo fel gwneud dim byd. Un o'r pethau hynny yw cysylltu ag adrannau'r llywodraeth a gwasanaethau awdurdod lleol sydd angen cael gwybod am y farwolaeth.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu gwasanaeth sydd yn hwyluso'r dasg i chi. Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn golygu y gallwch ddweud wrthym ni yn unig a byddwn ni wedyn yn cysylltu â'r sefydliadau eraill ar eich rhan .

Sut y gall y gwasanaeth eich helpu chi

Pan mae rhywun wedi marw, mae angen cofrestru eu marwolaeth gyda'r Cofrestrydd. Unwaith mae hynny wedi'i wneud, efallai bydd angen cysylltu â llawer o sefydliadau eraill i rhoi'r un wybodaeth iddynt.

Gallwn eich helpu chi i rhoi'r gwybodaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac yna byddant hwy yn rhannu'r gwybodaeth gyda'r nifer o adrannau eraill y llywodraeth a gwasanaethau awdurdod lleol a fydd angen

Sut i gysylltu â ni i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Rhaid cofrestru'r farwolaeth cyn y gellir defnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae gwahanol ffyrdd y gellir ddefnyddio'r gwasanaeth:

● **Wyneb yn wyneb** – Fel arfer, cynnigir y gwasanaeth fel rhan o'r cyfweiliad cofrestru gyda'r Cofrestrydd. Ffoniwch 01633 414770 i wneud apwyntiad os gwelwch yn dda. Mae ein swyddfa ar agor o 9.00am i 4.00pm dydd Llun i ddydd Gwener (o 09:30 ar dydd Mawrth).

● **Drwy ffonio** – Os hoffech siarad â rhywun dros y ffôn, ffoniwch yr Adran Gwaith a Phensiynau ar 0800 085 7308. Mae'r llinellau ar agor dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 8pm. Gellir ffonio'r rhif hwn am ddim o linell daear BT, ond gall darparwyr eraill, yn cynnwys darparwyr ffonau symudol godi tâl arnoch.

Os nad ydych yn siarad Cymraeg na Saesneg, ffoniwch ni ar 0800 085 7308 a bydd un o'n Ymgynghorwyr a chyfieithydd yn eich ffonio'n ôl i'ch helpu. Os ydych yn ffonio o Gymru bydd gennych y dewis o barhau gyda'r alwad yn Gymraeg.

Gallwn hysbysu'r canlynol ar eich rhan:

- Adran Gwaith a Phensiynau
 - Y Gwasanaeth Pensiwn
 - Anabledd a Gofalwyr
 - Canolfan Byd Gwaith
 - Tîm Iechyd Tramor
- Cyllid a Thollau EM
 - Budd-dal Plant
 - Credydau Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith
 - Treth Bersonol
- Gwasanaeth Pasbort a Hunaniaeth
- Swyddfa Budd-dal Tai
- Swyddfa Budd-dal Treth Cyngor
- Tai Cyngor Darparwyr Tai Cymdeithasol
- Treth Cyngor
- Llyfrgelloedd Gwasanaethau Hamdden
- Bathodynau Glas
- Gwasanaethau Oedolion
- Gwasanaethau Plant
- Casgliad taliadau am wasanaethau cyngor
- Gwasanaethau Etholaeth
- Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau
- Cludiant Consesiynol
- Casgliad Sbwriel â Chymorth
- Trwyddedau Parcio i Drigolion
- Trwyddedu (taksi, alcohol, gamblo)
- Addysg